# EISTEDDFOD
## Y Garreg Las
1–8 Awst 2026

**605. Gwobr Goffa Gwyneth Morus Jones**

Llefaru unigol 16 ac o dan 21 oed

## Detholiad penodol o 'Dan y Wenallt'

*Rhaid cynnwys detholiad penodol o'r agoriad ar ddechrau'r cyflwyniad*

Mae hi'n nos o Wanwyn yn y dref fach
ddileuad, ddiseren…

Gallwch glywed y gwlith yn diferu, a'r dref ddistaw'n anadlu.

A'ch llygaid chi yn unig sy'n agored i weld
y dref fach bygddu ymhlyg yn ei chwsg trwm ac ysgafn.

Clywch. Mae'r nos yn symud drwy'r strydoedd,
ar ymdeithgan urddasol y gwynt…
…a'r halen yn drwch ar yr alaw,
ym mhrifio'r borfa ar Fryncyn Llaregyb,
yn y gwlithyn sy'n cronni a'r seren sy'n chwalu,
ac yng nghwsg adar y Wenallt.

Mae hi'n heno yn Lôn Asyn
yn trotian yn ddistaw
lawr y llawr cobl â gwymon ar ei charnau,
heibio i bot blodyn ac adnod a thlysau,
lluniau dyfrlliw o waith llaw,
seld sanctaidd a sgiw,
harmoniwm a chi tsieina…

Mae amser yn cerdded. Clywch.
Ddoe heddiw ac yfory a threnynydd a thradwy.
Clywch gerdded traed amser.
Dewch yn nes nawr.

Addasiad T. James Jones o *Under Milk Wood*, Dylan Thomas [*argraffiad 2014*]